**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-00(p5)**

**Dyddiad:** 14 Medi 2000
**Amser:** 2.00pm - 4.20pm
**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

## ADRODDIAD YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD DROS AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

### Cyfarfodydd/Ymweliadau

1. Ers fy mhenodiad ar ddiwedd mis Gorffennaf, cefais ystod eang o gyfarfodydd gydag arweinwyr y diwydiant, ac ymwelais â nifer o ffermydd. Rwyf hefyd wedi ymweld â rhai o’r sioeau amaethyddol sirol, sydd wedi rhoi cyfle gwerthfawr imi ddeall holl gwmpas fy nghyfrifoldebau, ac i glywed drosof fy hun am bryderon y diwydiant ffermio.

2. Mae fy rhaglen hefyd wedi cynnwys dau ymweliad â Gogledd Cymru. Ar 31 Awst, cyfarfûm â chynrychiolwyr o bob un o’r prif fudiadau ffermio yng Nghaernarfon er mwyn trafod ystod eang o faterion amaethyddol. Y diwrnod canlynol, ymwelais â fferm fynydd yn Eryri i drafod eu pryderon gyda grp o ffermwyr; a bûm yn ffatri prosesu llaeth Hufenfa De Arfon ym Mhwllheli. Ddydd Gwener diwethaf, ymwelais â swyddfa’r Adran Amaeth yng Nghaernarfon i gwrdd â rhai o’r staff yno.

3. Wythnos diwethaf, ymwelais â ffatri gwneud caws Llanboidy yn Hendy-gwyn ar Dâf, cyfarfûm â staff yn Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin a mynychais Ysgol Haf Wledig Asiantaeth Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (UN/FAO) yn Sir Benfro. Mae mwy o gyfarfodydd ac ymweliadau ar y gweill yn ystod y misoedd nesaf, yn y Gogledd ac yn y De, fel y gallaf weld a chlywed drosof fy hun bryderon a dyheadau’r diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru.

### Cynllun Datblygu Gwledig/ Tir Mynydd

4. Rydym yn aros am benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd ar Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Disgwylir i’r Cynllun fynd o flaen Pwyllgor Strwythurau Amaethyddol a Datblygu Gwledig (STAR) y Comisiwn i’w gymeradwyo’r wythnos nesaf. Rydym wedi bod yn cydweithio’n agos gyda swyddogion y Comisiwn i ateb rhai ymholiadau munud olaf ar fanylion y Cynllun; serch hynny, nid yw’r rhain yn broblemau sylweddol.

5. Mae’r cynllun Tir Mynydd ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol yn rhan hanfodol o’r cynllun, ac mae’r unig fater na chytunwyd arno hyd yn hyn yn ymwneud â chyfraddau stocio. Rydym yn gweithio’n galed i sicrhau y bydd y testun terfynol ar y cyfraddau stocio yn rhoi digon o ystyriaeth i’r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Unwaith y byddwn wedi sicrhau cymeradwyaeth y Comisiwn i’r Cynllun, byddwn yn ysgrifennu at bob ffermwr cymwys yn yr Ardaloedd Llai Ffafriol yn esbonio’r cynllun Tir Mynydd

mewn mwy o fanylder, a darparu ffurflenni cais iddynt.

**Prawf Organebau a Addaswyd yn Enetig, Sir y Fflint**

6. Mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu i drafod y gwerthusiad graddfa-fferm ar gyfer Organebau a Addaswyd yn Enetig yn Sealand yn Sir y Fflint. Caiff y cyfarfod ei gynnal yn y Ganolfan Gymunedol yng Nghei Cona ar ddydd Iau, 14 Medi, a chaiff ei gadeirio gan Bob Macey, Pennaeth Adran yr Amgylchedd yn y Cynulliad. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i'r gymuned leol glywed nifer o drafodaethau yngln â'r prawf gwerthuso. Bydd y rheini sy'n bresennol hefyd yn gallu cyflwyno unrhyw gwestiynau neu bryderon i banel, a fydd yn cynnwys swyddog o Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau; gwyddonydd o blith yr ymchwilwyr annibynnol sy'n gweithio ar y gwerthusiad; a chynrychiolydd o SCIMAC (Menter Cadwyn Cyflenwi Cnydau Amaethyddol wedi'u Haddasu), sef grp o'r diwydiant biotechnoleg.

**Llinell Gymorth i Ffermwyr**

7. Mae'r llinell gymorth i ffermwyr nawr yn weithredol, gyda galwadau'n cael eu cyfeirio i'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig (FRCA) drwy'r rhif Cyswllt Busnes a Swyddfeydd Rhanbarthol. Mae'r galwadau wedi amrywio'n fawr, ac o'u plith cafwyd ceisiadau am wybodaeth yngln â thyfu madarch, gwneud compost, potelu dr, grantiau adeiladau fferm, beicio Cwad, atyniadau fferm a magu anifeiliaid ar gyfer eu hela. Hyrwyddwyd y gwasanaeth yn eang drwy sioeau amaethyddol amrywiol a chyfarfodydd gyda chyrff sy'n bartneriaid.

**Gwasanaeth Arloesi ar Ffermydd (FIS)**

8. Yn dilyn y cyflwyniad gan Fred Cunningham yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, mae llawer o waith wedi ei wneud i ymgorffori cynigion y Grp yn y Cynllun Gweithredu Bwyd-Amaeth Rhanbarthol sy'n cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd ar gyfer defnydd cyllid Amcan Un, yn ogystal â defnydd mwy cyffredinol. Cynhaliwyd trafodaethau gydag ystod eang iawn o sefydliadau a dechreuwyd ar waith i ddod o hyd i'r anghenion ariannol ar gyfer sefydlu FIS, manylebau swyddi a rolau a chwmpasau gwaith diffiniol. Gyda chytundeb y Cadeirydd, bwriadwn gyflwyno papur i'r Pwyllgor ar y mater hwn ym mis Hydref.

**Cwmni Cig Cymru**

9. Ers terfynu'r cynnig cyfranddaliadau ar 28 Mehefin, mae'r cwmni, gyda chefnogaeth y Pwyllgor, wedi bod yn gweithio i ddatblygu cynigion amgen i gynorthwyo'r sector da byw i ddatblygu.

10. Mae'r cynigion newydd, a gafodd eu cyhoeddi'n ddiweddar, yn golygu newid i strwythur cydweithredol, a fydd yn cynnwys cymorth oddi wrth y cydweithfeydd cyflenwi a threfnu mentrau ar y cyd gyda buddiannau lladd/prosesu, a fydd yn caniatáu symud cynt i brosesu. Ar 1 Awst, ysgrifennodd y cwmni at bob un o'r 700 o ffermwyr a gefnogodd y cynnig cyfranddaliadau gwreiddiol, yn esbonio'r

cynnig newydd ac yn eu gwahodd i’w gefnogi. Mae’r manylion yngln â phartneriaid posibl ac ymatebion y buddsoddwyr hyd yn hyn yn gyfrinachol, am resymau masnachol, hyd nes y cânt eu cyhoeddi gan y cwmni. Disgwylir y cyhoeddiad hwn cyn bo hir.

**Twymyn Clasurol y Moch**

11. Yn **Lloegr** er 8 Awst, cadarnhawyd 7 achos o dwymyn clasurol y moch yn East Anglia, a’r diweddaraf ar 5 Medi. Ym mhob achos, cyflwynwyd Gorchymyn Datganiadol gan MAFF, sy’n diffinio Ardal wedi’u Heintio ac yn gosod cyfyngiadau ar symud moch (a rhywogaethau eraill o anifeiliaid os oes moch ar y safle). Lleolir rhai ffermydd moch mewn mwy nag un Ardal wedi’i Heintio, gan bod y rhain yn gorgyffwrdd â’i gilydd.

12. Ar sail Cymru a Lloegr yn unig, diwygiwyd y Rheoliadau Anifeiliaid a Chynnyrch Anifeiliaid (Mewnforion ac Allforion) (Cymru a Lloegr) 2000 sydd yn berthnasol i Dwymyn Clasurol y Moch, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth, gyda fy nghytundeb i. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys codi’r gwaharddiad yn Lloegr, heblaw am dair sir Suffolk, Norfolk ac Essex. Yn ymarferol, caniataodd hyn allforio moch o Gymru drwy ganiatáu symud moch drwy Loegr.

13. Ar 5 Medi, cyfarfu Pwyllgor Sefydlog Milfeddygol y Comisiwn Ewropeaidd a phenderfynu:

- y dylid ymestyn y gwaharddiad ar allforio moch byw o Norfolk a Suffolk hyd 15 Hydref;
- y dylai’r gwaharddiad ar allforio o Essex gael ei godi ar 15 Medi, os nad oes unrhyw achosion eraill yn y sir, ac y dylid codi’r ardaloedd gwyliadwraeth ac amddiffyn perthnasol;
- y dylai’r DU ystyried rhoi cig o ardal wyliadwraeth SF2000/02 (yr ardal orllewinol yn Norfolk) ar y farchnad, yn amodol ar delerau llym.

14. Yng **Nghymru**, codwyd y gwaharddiad oedd ar dair fferm yr amheuwyd bod ganddynt gysylltiadau â ffermydd yn East Anglia. Cliriwyd y ffermydd yn Llandinam, Llanymynech a Hendy-gwyn ar Dâf yn derfynol erbyn dydd Iau 31 Awst, ac mae pob safle yng Nghymru nawr yn rhydd o waharddiadau symud. Gwaharddiadau yw’r rhain a osodwyd o ganlyniad i gysylltiad â heintiad presennol Twymyn y Moch, neu o ganlyniad i amheuaeth bod yr afiechyd ar fferm.